# Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (2024-2039)

# Ffurflen Cynnig Safle Posib

## Gorffennaf 2024

# 1. Cyfarwyddiadau

Mae'r ffurflen hon ar gael yn electronig ar-lein hefyd: www.gwynedd.llyw.cymru/safleoeddposib

Mae'r Cyngor yn annog cynigwyr safle i gwblhau'r ffurflen cyflwyniad Safle Posib ar-lein. Mae'r ffurflen ar-lein yn galluogi cynigwyr safle i gynhyrchu a chyflwyno map, cael gwybodaeth am gyfyngiadau, gweld nodiadau cyfarwyddyd ac uwchlwytho dogfennaeth gefnogi.

Caiff y wybodaeth a gyflwynwyd ar y ffurflen Safle Posib ei defnyddio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) i asesu pob Safle Posib yn erbyn Methodoleg Asesu'r Safleoedd Posib. **Nid yw cyflwyno Safle Posib yn rhoi unrhyw warant y bydd y safle yn cael ei ddynodi yn y Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.**

Dylai cynigwyr safle gyfeirio at y 'Nodiadau Cyfarwyddyd' a 'Methodoleg Asesu'r Safle Posib' wrth gyflwyno eu Safle Posib. Mae'r ddwy ddogfen ar gael yn electronig ac mae copïau papur ar gael trwy gysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio. Rhaid cwblhau ffurflen cynnig Safle Posib ar wahân ar gyfer pob safle sy'n cael ei gyflwyno. Os fydd defnydd amgen yn cael ei gynnig ar gyfer yr un safle, bydd yn ofynnol cael ffurflen cynnig Safle Posib ar wahân ar gyfer pob defnydd.

Mae'r ffurflen Safle Posib yn gosod allan yr holl wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn i'r ACLl allu ymgymryd ag asesiad cadarn. Felly mae'n bwysig bod cynigwyr safle yn cwblhau'r holl adrannau perthnasol ar y ffurflen. Os nad yw cynigion yn cael eu gwneud drwy'r ffurflen electronig, bydd angen darparu map o'r Safle Posib (gweler Rhan 3) er mwyn i'r cyflwyniad allu cael ei dderbyn.

Bydd yr Galw am Safleoedd Posib yn agor ar y 10 Gorffennaf 2024 am gyfnod o 12 wythnos. **Mae angen i ffurflenni Safle Posib sydd wedi eu cwblhau gael eu derbyn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol erbyn 2 Hydref 2024.**

## Sut fyddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Ar 25 Mai 2018 daeth Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i rym, gan osod cyfyngiadau ar sut all sefydliadau gadw a defnyddio data personol a diffinio hawliau mewn perthynas â'r data hwnnw. Caiff unrhyw wybodaeth bersonol sy'n cael ei datgelu i ni ei phrosesu yn unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd. Gallwch weld Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor yma: Datganiadau preifatrwydd a chwcis (llyw.cymru)

Bydd yr holl Safleoedd Posib ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio ar ffurf cofrestr Safle Posib ac felly ni ellir eu trin yn gyfrinachol. Bydd manylion am y Safleoedd Posib hefyd yn cael eu dosbarthu i randdeiliaid mewnol ac allanol i'w galluogi i gael eu hasesu fel rhan o broses Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd. Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol ei gynnwys fel rhan o hyn.

Bydd manylion cyswllt yr holl gynigwyr safle a'u hasiantaethau (ble y bo'n berthnasol) yn cael eu hychwanegu at bas ddata CDLl Gwynedd. Bydd y Cyngor yn gohebu â'r rhanddeiliaid drwy e-bost oni nodir fel arall.

Mae'r holl ffurflenni a dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd iaith ddewisol y cyflwyniad yn cael ei thrin fel iaith ddewisol cyfathrebu.

## 2. Manylion Cyswllt

**1. Cwblhewch fanylion canlynol y cynigydd a'r asiant isod (os yw'n berthnasol):**

| | Cynigydd | Asiant |
|---|---|---|
| **Enw:** | | |
| **Sefydliad / Cwmni:** | | |
| **Cyfeiriad:** | | |
| **Cod Post:** | | |
| **E-bost*:** | | |
| **Ffôn:** | | |

* Defnyddir cyfeiriad e-bost fel prif fodd cyfathrebu'r Awdurdod Cynllunio Lleol os gaiff un ei ddarparu.

## 3. Manylion y Safle Posib

**Rhaid** anfon cynllun lleoliad gyda phob safle posib a gyflwynir. Rhaid i'r cynllun lleoliad fod ar fap Ordnance Survey cyfredol sy'n ar raddfa 1:1,250 neu 1:2,500 sy'n dangos y safle a'i gyd-destun amgylchynol. Dylai'r tir sy'n destun y Safle Posib gael ei amlinellu mewn **COCH**, a dylai unrhyw dir ychwanegol dan berchnogaeth neu reolaeth y cynigiwr safle (neu gyd berchnogion) gael ei amlinellu mewn **GLAS**. Ni fydd cynigion Safle Posib heb gynllun safle ynghlwm, neu â chynllun safle nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion uchod, yn cael eu derbyn.

Wrth gyflwyno ffurflen cynnig Safle Posib dylai cynigwyr safle gyfeirio at y 'Nodiadau Cyfarwyddyd'. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd yn darparu esboniad o'r termau a ddefnyddir a manylion am sut y dylai'r ffurflen gynnig gael ei chwblhau i fodloni gofynion yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

**Cwblhewch y manylion canlynol ar gyfer y Safle Posib:**

| | |
|---|---|
| **2. Enw'r Safle:** | |
| **3. Cyfeiriad y Safle (gan gynnwys côd post os yw'n wybyddus:** | |
| **4. Cyfeirnod Grid:** | |
| **5. Arwynebedd (hectarau):** | |
| **6. Defnydd(iau) tir presennol:** | |
| **7. Defnydd(iau) tir cyfagos:** | |

**8. A oes cynllun lleoliad ar raddfa briodol wedi cael ei atodi i gyflwyniad y Safle Posib?**

Oes / Nac oes
◯ ◯

**9. Canran y Safle Posib sy'n Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen / Tir Gwyrdd**

| | % |
|---|---|
| **Tir Gwyrdd** | |
| **Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen** | |

* Am ddiffiniad gweler t37 Polisi Cynllunio Cymru. Rhifyn 12.

## 4. Defnydd y Safle Posib

**Manylion am ddefnydd arfaethedig y Safle Posib:**

| | **Manylion** |
|---|---|
| **10. Defnydd Arfaethedig:** | |
| **11. Disgrifiad:** | |

Cwblhewch gwestiynau 12,13 ac 14 fel sy'n briodol i'r defnydd a gynigir.

**12. Ceisiadau Preswyl:**

| | **Marchnad Agored** | **Tai Fforddiadwy** | **Arall** |
|---|---|---|---|
| **Amcangyfrif o'r nifer o unedau arfaethedig:** | | | |

**13. Cynigion Cyflogaeth / Manwerthu: Rhagamcan o'r Dosbarth Defnydd ac arwynebedd llawr (net) mewn metrau sgwâr.**

| **Dosbarth Defnydd** | **Arwynebedd Llawr Net** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

**14. Cynigion Ynni Adnewyddadwy:**

| Math | Allbynnau (Mega Watts) |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## 5. Perchnogaeth Tir

**Cwestiynau mewn perthynas â Perchnogaeth Tir / Diddordeb gan Ddatblygwyr:**

| | ✓ | ✗ | Ddim yn gwybod | Manylion |
|---|---|---|---|---|
| **15. A yw'r safle a'i fynediad arfaethedig, o fewn perchnogaeth lwyr cynigydd y safle? *** | ○ | ○ | ○ | |
| **16. A yw'r holl berchnogion tir yn cefnogi datblygu'r tir?** | ○ | ○ | ○ | |
| **17. Os yw'r tir o dan berchnogaeth gyhoeddus, a yw mewn strategaeth waredu neu a ydyw wedi ei bennu drwy benderfyniad y Cyngor fod y tir i'w gadw / neu ei werthu gan y Cyngor?** | ○ | ○ | ○ | |

| | ✓ | ✗ | Ddim yn gwybod | Manylion |
|---|---|---|---|---|
| **18. Ai cynigydd y safle yw datblygwr bwriedig y safle?** | ○ | ○ | ○ | |
| **19. A yw'r safle ar y farchnad ar hyn o bryd: 'Ar Werth' neu a oes 'Gwerthiant wedi ei gytuno'? ***** | ○ | ○ | ○ | |
| **20. A oes unrhyw drafodaethau gyda datblygwyr arfaethedig wedi digwydd e.e. adeiladwyr tai?** Os 'Oes/Ie' rhowch fanylion, gan gynnwys statws y trafodaethau hynny neu wybodaeth am unrhyw gytundebau (e.e. cytundebau tir ac ati y gellir fod wedi eu gwneud). | ○ | ○ | ○ | |
| **21. A oes yna unrhyw gyfamod neu gyfyngiad cyfreithiol neu waharddiad gwybyddus a allai atal neu gyfyngu ar ddatblygu'r safle e.e. llain bridwerth, adfachu, cyfyngiad defnydd, cyfyngiad mynediad.** Os 'Oes' rhowch fanylion ac esbonio sut fydd y rhain yn cael eu goresgyn. | ○ | ○ | ○ | |

* Rhowch fanylion cyswllt yr holl bobl eraill sydd â pherchnogaeth gyfreithiol neu ddiddordeb yn y safle a natur eu perchnogaeth e.e. cyd-berchennog, cyfamod/hawddfraint cyfreithiol. Rhaid atodi cynllun at y wybodaeth hon

ar fap cyfredol sail Ordnance Survey sy'n dynodi'n glir y parseli o dir mae pob parti'n berchen arno sy'n berthnasol i'r Safle Posib (yn ogystal ag unrhyw dir sy'n ffinio os yw'n berthnasol).

** Rhowch wybodaeth bellach mewn perthynas â phob perchennog ychwanegol a/neu barti sy'n mynegi diddordeb ac amlinellwch sut fydd unrhyw faterion sy'n codi o'r cyd-berchnogaeth yn cael eu cyfarch er mwyn sicrhau fod y safle yn cael ei ddarparu.

*** Rhowch fanylion am pa mor hir y bu'r safle ar y farchnad ac unrhyw ddiddordeb ynddo hyd yma. Os yw'r safle yn y broses o gael ei werthu, ydy'r prynwyr yn ymwybodol ac yn gefnogol o gyflwyniad y Safle Posib (rhowch dystiolaeth).

## 6. Statws Cynllunio ac Arolygon Safle

**Cwestiynau sy'n berthnasol i Statws Cynllunio ac unrhyw Arolygon Safle:**

| | **Manylion** |
|---|---|
| **22. A yw'r safle wedi ei ddynodi oddi fewn i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Mabwysiedig, un ai'n rhannol neu yn ei gyfanrwydd?** Os ydy, rhowch fanylion gan gynnwys rhif cyfeirnod CDLl a pham nad yw datblygiad wedi mynd rhagddo/ wedi ei gyflawni hyd yma. | |
| **23. Statws Cynllunio?** A oes unrhyw ddatblygu wedi dechrau / A oes caniatâd cynllunio ar y safle? | |
| **24. Hanes Cynllunio'r Safle (gan gynnwys unrhyw ganiatâd a roddwyd neu resymau dros wrthod)?** Rhowch rifau cyfeirnod | |
| **25. A oes unrhyw drafodaethau cyn-gais wedi digwydd gyda'r Cyngor?** Rhowch rifau cyfeirnod | |

## 7.Lleoliad, Hygyrchedd a Capasiti'r Priffyrdd

**Cwestiynau sy'n berthnasol i leoliad y Safle Posib, gan gynnwys Hygyrchedd a Capasiti'r Priffyrdd:**

| | ✓ | ✗ | Ddim yn gwybod | Manylion |
|---|---|---|---|---|
| **26. A yw'r safle oddi fewn i neu a fyddai'n ffurfio estyniad rhesymegol i anheddiad?**<br>Os ydy, rhowch enw'r anheddiad. | ○ | ○ | ○ | |
| **27. A yw'r safle o fewn 800 metr i ganol anheddiad sydd ag amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol?**<br>Os ydy, rhowch fanylion. Os na, yna beth yw'r pellter at yr un agosaf? A oes cyswllt drwy drafnidiaeth gyhoeddus? | ○ | ○ | ○ | |
| **28. A oes yna unrhyw lwybrau Teithio Llesol dynodedig neu lwybrau cerdded neu seiclo eraill i ganol yr anheddiad ar gael o'r Safle Posib?**<br>Os na, a fyddai darpariaeth o lwybrau cerdded a seiclo newydd yn ddichonadwy? | ○ | ○ | ○ | |
| **29. A oes yna ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu'r Safle Posib** | | | | |

| | ✓ | ✗ | Ddim yn gwybod | Manylion |
|---|---|---|---|---|
| **at amrywiaeth o wasanaethau / cyfleusterau?**<br>Os oes, rhowch fanylion am amlder y gwasanaeth a'r llwybr. Os na, beth yw'r pellter i'r safle bws agosaf / gorsaf drenau agosaf. | ◯ | ◯ | ◯ | |
| **30. Os nad oes cyfleoedd teithio llesol / trafnidiaeth gyhoeddus ar gael, a allai'r cynnig Safle Posib arddangos cydymffurfiaeth gyda'r Hierarchaeth Trafnidiaeth ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12)?** | ◯ | ◯ | ◯ | |
| **31. A fyddai unrhyw welliannau priffyrdd yn ofynnol er mwyn galluogi mynediad diogel sy'n cwrdd â safonau priffyrdd?**<br>Rhowch gynllun safle ar wahân sy'n dynodi trefniadau mynediad arfaethedig y safle. Os nad yw'r safle yn hygyrch ar hyn o bryd o'r rhwydwaith briffyrdd gyhoeddus, rhowch wybodaeth am sut y gellir cyflawni mynediad. | ◯ | ◯ | ◯ | |

## 8. Cymeriad a Chyd-destun y Safle

**Cwestiynau sy'n berthnasol i Gymeriad a Chyd-destun y Safle Posib:**

| | ✓ | ✗ | Ddim yn gwybod | Manylion |
|---|---|---|---|---|
| **32. A yw'r safle yn cael ei effeithio gan unrhyw nodweddion topograffaidd (fel graddiant serth) neu ansadrwydd tir a allai arwain at rwystro datblygu?** Os 'Ydy', rhowch fanylion pellach a manylion am unrhyw fesurau lliniaru a gynigir. | ◯ | ◯ | ◯ | |
| **33. A yw'r safle yn cael ei effeithio gan unrhyw ddatblygiadau ffisegol (fel strwythurau, gwaith pibell, rheilffyrdd, peilonau) a allai arwain at rwystro datblygiad?** Os 'Ydy', rhowch wybodaeth bellach a manylion am unrhyw fesurau lliniaru a gynigir. | ◯ | ◯ | ◯ | |
| **34. A yw'r safle yn cael ei effeithio gan wrthdaro o ran defnydd cymdogol a allai gael effaith andwyol ar amwynder (llygredd sŵn, arogl, golau neu lwch)?** Os 'Ydy', rhowch wybodaeth bellach a manylion am unrhyw fesurau lliniaru a gynigir. | ◯ | ◯ | ◯ | |
| **35. A oes yna unrhyw halogiad ar y safle y gwyddoch amdano?** Os 'Oes' rhowch fanylion i arddangos fod adferiad yn bosibl ac yn ddichonadwy. | ◯ | ◯ | ◯ | |

| | ✓ | ✗ | Ddim yn gwybod | Manylion |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

## 9. Tirlun ac Effaith Amgylcheddol

**Cwestiynau sy'n berthnasol i effaith cynnig y Safle Posib ar yr Amgylchedd gan gynnwys y Tirlun:**

| | ✓ | ✗ | Ddim yn gwybod | Manylion |
|---|---|---|---|---|
| **36. A fyddai datblygiad o'r safle yn effeithio ar unrhyw ddynodiadau amgylcheddol?** Rhowch fanylion gan gynnwys natur y dynodiad, pellter o'r safle ac unrhyw arolygon ecolegol sydd wedi eu cyflawni. | ○ | ○ | ○ | |
| **37. A fyddai datblygiad y safle yn effeithio ar unrhyw ddynodiad hanesyddol neu eu gosodiad?** Rhowch fanylion gan gynnwys natur y dynodiad, pellter o'r safle ac unrhyw arolygon neu asesiadau a ymgymerwyd. | ○ | ○ | ○ | |
| **38. A fydd y safle'n cynnwys Seilwaith Gwyrdd neu'n darparu ardaloedd o gysylltedd cynefin?** | ○ | ○ | ○ | |

*** Caiff cynigion ond eu derbyn pan fydd stripio ffosffad mewn lle neu bod gwelliannau wedi eu cynllunio mewn Rhaglen Rheoli Asedau.** Bydd angen i gynigion mewn ardaloedd a raglennir ar gyfer gwella stripio ffosffad sicrhau fod amseriad gwelliannau o'r fath yn darparu digon o amser i alluogi datblygiad i gael ei ddarparu oddi fewn i gyfnod CDLl Gwynedd (2024-2039).

## 10. Perygl Llifogydd

**Cwestiynau sy'n berthnasol i'r Risg o Lifogydd i'r Safle Posib:**

| | ✓ | ✗ | Ddim yn gwybod | Manylion* |
|---|---|---|---|---|
| **39. A yw unrhyw ran o'r safle (gan gynnwys mynediad) wedi ei leoli oddi fewn i barth perygl llifogydd C1 neu C2 DAM (Mapiau Cyngor ar Ddatblygu) neu parth 2 neu 3 o Fap Llifogydd ar gyfer Cynllunio Afonydd a'r Môr?** Os, ydy, rhowch fanylion. | ○ | ○ | ○ | |
| **40. A roddwyd ystyriaeth i sut fydd Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn cael eu hymgorffori oddi fewn i'r datblygiad arfaethedig?** Os 'Do', rhowch fanylion. | ○ | ○ | ○ | |

* Rhowch fanylion am unrhyw Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd a ymgymerwyd ar gyfer y safle.

## 11. Capasiti Seilwaith / Cyfleustodau

**41. Pa rhai o'r Cyfleustodau Canlynol sydd Ar Gael i'r Safle Posib?**

| | ✓ | ✗ | Ddim yn gwybod | Manylion* |
|---|---|---|---|---|
| **Prif Gyflenwad Dŵr** | ○ | ○ | ○ | |
| **Prif System Garthffosiaeth** | ○ | ○ | ○ | |
| **Cyflenwad Trydan** | ○ | ○ | ○ | |
| **Cyflenwad Nwy** | ○ | ○ | ○ | |
| **Llinell Ffôn** | ○ | ○ | ○ | |
| **Band Llydan** | ○ | ○ | ○ | |

| | ✓ | ✗ | Ddim yn gwybod | Manylion* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Man gwefru Cerbyd Trydan | ◯ | ◯ | ◯ | |
| Arall | ◯ | ◯ | ◯ | |

* Os yr ateb yw 'Na' i unrhyw un o'r categorïau, rhowch fanylion am sut y caiff y gwasanaethau eu darparu.

## 12. Cyflenwi a Hyfwyedd

**42. Nodwch, pryd yn ystod oes Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (2024 – 2039) yr ydych yn rhagweld bydd y safle'n debygol o ddod yn ei flaen:**

| | Dyddiad: |
|---|---|
| Cyflwyno Cais / Ceisiadau Cynllunio | |
| Dechrau ar y Safle: | |

**43. Ar gyfer safleoedd preswyl, nodwch y cyfnodau datblygu (phasing) yr ydych yn rhagweld, os yr ydych yn gwybod.**

| Blwyddyn | Y cyflenwad a ragwelir |
|---|---|
| 2024-2025 | |
| 2025-2026 | |
| 2026-2027 | |
| 2027-2028 | |
| 2028-2029 | |
| 2029-2030 | |
| 2030-2031 | |
| 2031-2032 | |
| 2032-2033 | |
| 2033-2034 | |
| 2034-2035 | |
| 2035-2036 | |
| 2036-2037 | |
| 2037-2038 | |
| 2038-2039 | |

**Cwestiynau sy'n berthnasol i Gyflenwad / Hyfwyedd y Safle Posib:**

| | ✓ | ✗ | Ddim yn gwybod | Manylion |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **44. Os ydych chi'n bwriadu datblygu'r safle eich hun, a yw'r arian mewn lle i dalu costau datblygu, gan gynnwys unrhyw ofynion seilwaith (e.e. arian grant, benthyciad, cyfleuster banc)?** | ◯ | ◯ | ◯ | |
| **45. Os nad ydych chi'n datblygu'r safle eich hun, oes yna ddatblygwr yn gysylltiedig, drwy gytundeb opsiwn neu gytundeb contract arall? Os na, ar ba adeg fyddai datblygwr yn debygol o fod yn gysylltiedig?** | ◯ | ◯ | ◯ | |
| **46. A yw'r safle'n gallu cymhwyso'r goblygiadau polisi, seilwaith ac Adran 106 eang a fydd yn ofynnol?*** | ◯ | ◯ | ◯ | |
| **47. A ydych yn ystyried fod y safle yn ariannol hyfyw ac yn gallu cael ei ddarparu?**** | ◯ | ◯ | ◯ | |
| **48. Pe byddai caniatâd cynllunio mewn lle nawr, a fyddai'r safle ar gael ar unwaith i'w ddatblygu?** | ◯ | ◯ | ◯ | |

* Cyfeiriwch at y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Mabwysiedig i bennu gofynion polisi tebygol yn y lle cyntaf.

** Yn unol â'r canllaw bydd yn rhaid i bob safle sy'n symud ymlaen i'r cam asesu manwl gynnal hyfywedd ariannol y safle.

## 13. Argyfwng yr Hinsawdd, Creu Lleoedd a Gwella Bioamrywiaeth

**Cwestiynau sy'n berthnasol i sut fydd y cynnig am Safle Posib yn rhoi ystyriaeth i'r Argyfwng Hinsawdd, Creu Lleoedd a Gwella Bioamrywiaeth:**

| | Manylion |
|---|---|
| **49. Pa fesurau fydd yn cael eu cymryd fel rhan o'r cynnig i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd? A fydd y cynigion yn cynnwys unrhyw dechnolegau generadu ynni di-garbon neu carbon isel a/ neu fabwysiadu unrhyw safonau adeiladu cynaliadwy sy'n well na rheoliadau adeiladu safonol?** | |
| **50. Sut fydd y cynnig yn cyfrannu at Ddeilliannau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol (gweler Ffigur 5 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12))** | |
| **51. Sut mae'r safle yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a chynorthwyo i gyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?** | |
| **52. Rhowch fanylion am unrhyw welliannau bioamrywiaeth sydd i'w darparu.**<br>A fyddent oddi fewn i'r Safle Posib? Os nad ydyn nhw oddi fewn i'r Safle Posib, darparwch gynllun sy'n manylu ble fydd y gwelliannau'n cael eu darparu ynghyd â manylion am berchnogaeth tir. | |

## 14. Gwybodaeth Bwysig i Gynigydd y Safle Posib

Bwriedir i'r gofynion uchod fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad a gynigir.

Cyfrifoldeb y cynigydd safle yw ymgysylltu'n gadarnhaol â phroses baratoi CDLl Gwynedd ym mhob cam, gan weithio gyda'r Cyngor i sicrhau fod y wybodaeth berthnasol ar gael yn ystod y cam priodol.

Cyfrifoldeb y cynigydd safle yw ymgymryd â gwaith technegol perthnasol i gefnogi cynhwysiant y safle yn y Cynllun, gan gynnwys costau. Na ellir adennill unrhyw gostau posibl gan yr ACLl.

Wrth gyflwyno Safleoedd Posib, dylai cynigwyr Safle Posib gynnwys gymaint ag sy'n bosibl gwybodaeth gefnogol. Pan fo tystiolaeth sy'n benodol i safle yn cael ei baratoi, dylai'r Cyngor gael eu hysbysu a'u cynghori ynghylch a phryd y bydd ar gael i gynorthwyo yn yr asesiad o'r safle. Rhaid i unrhyw dystiolaeth gefnogol ychwanegol gael ei gyflwyno i'r Cyngor erbyn 02 Hydref 2024

Caiff cynigion eu croesawu yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch, wrth gyflwyno'r ffurflen hon, caiff eich manylion cyswllt eu hychwanegu at ein cronfa ddata CDLl Gwynedd a byddwch yn cael gwybod am y cynnydd yn y gwaith o baratoi CDLl Gwynedd. Os oes unrhyw ymholiadau gennych neu os hoffech stopio dderbyn gwybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Polisi isod.

Dylai Ffurflenni Cynnig Safle Posib sydd wedi eu cwblhau gael eu dychwelyd i Bolisi Cynllunio:

**Ar-lein**: Trwy gwblhau ffurflen electronig: www.gwynedd.llyw.cymru/safleoeddposib

**E-bost:** polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru

**Post:** Polisi Cynllunio,
Gwasanaeth Polisi Cynllunio, Tirwedd a Natur Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 ISH

Sicrhewch fod pob adran berthnasol o'r ffurflen wedi cael ei chwblhau.

**Rhaid dychwelyd Ffurflenni Cynnig Safle Posib erbyn 02 Hydref 2024. Bydd cynigion a dderbynnir ar ôl yr amser hwn yn cael eu hystyried fel cynigion hwyr.**

Os ydych chi wedi cyflwyno dogfennau ychwanegol i gefnogi cyflwyno Safle Posib, rhestrwch nhw isod.

| |
|---|
| |

Llofnod: ........................................ Dyddiad: ..................

Dylid nodi na ddylai cyflwyno unrhyw Safle Posib, a'i ystyriaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gael ei ddehongli mewn unrhyw ffordd fel ymrwymiad i'w addasrwydd ar gyfer ei gynnwys oddi fewn i Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd.